# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 3968A2023

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o’r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn a'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – ffi archwilio 20

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 21

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2023 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae’r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio’r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a’u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- archwiliad o’r cyfrifon
- trefniadau er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Digwyddodd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i’r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19, wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i’r galw ychwanegol sydd wedi cronni yn y system yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roedd cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â chyfres ehangach o heriau sy’n gysylltiedig â’r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder yn y gweithlu, ac ystâd sy’n heneiddio. Dyluniwyd fy rhaglen waith, felly, er mwyn sicrhau pobl Cymru yn y modd gorau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli’n dda.

4 Ceisiais sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i’r afael â’r heriau ôl-bandemig y maent yn eu hwynebu, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Parhawyd i weithio ac ymgysylltu o bell pan fo hynny’n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd rhywfaint o waith archwilio ar y safle fel y bo’n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Mae’n anochel bod hyn wedi cael effaith ar ein modd o gyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Mae cyflwyno fy ngwaith archwiliad o gyfrifon wedi parhau o bell yn bennaf. Diweddarwyd safonau archwilio ar gyfer archwiliadau 2022-23 a arweiniodd at rai newidiadau sylweddol yn ein dull gweithredu. Trafodwyd y newidiadau penodol yn fanwl yn fy Nghynllun Archwilio 2023. Estynnwyd y dyddiad cau cyflwyno cyfrifon archwiliedig i 31 Gorffennaf 2023. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 28 Gorffennaf 2023, sy’n golygu bod y dyddiad cau wedi’i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech gyfunol fawr gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Addasais hefyd ganolbwynt a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr heriau ôl-bandemig sy’n wynebu’r GIG yng Nghymru. Rwyf wedi gwneud sylwadau ar sut mae GIG Cymru yn mynd i’r afael â’r ôl-groniad o gleifion sy’n aros am driniaethau orthopedig. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu’r GIG sy’n dwyn ynghyd ystod o fetrigau a thueddiadau i helpu i ddangos yr heriau y mae angen mynd i’r afael â nhw’n lleol ac yn genedlaethol. Mae’r Adroddiad Briffio yn ategu fy asesiadau o sut mae trefniadau cynllunio’r gweithlu cyrff unigol y GIG yn eu helpu i fynd i’r afael yn effeithiol â heriau presennol a dyfodol y gweithlu. Mae fy nhimoedd archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar drefniadau llywodraethu cyrff unigol, yn ogystal â sut maent yn ymateb i heriau a risgiau lleol penodol. Mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn cael ei wneud yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

7 Mae’r adroddiad hwn yn grynodeb o’r materion a gyflwynwyd i’r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy’n dal i fynd rhagddo, ond nid yw wedi ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno’r amcangyfrif diweddaraf o’r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â fy ngwaith, o’u cymharu â’r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2023.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi’r risgiau archwilio cyfrifon a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2023 a sut yr ymdrinnir â nhw drwy’r archwiliad

10 Mae’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Byddwn yn ei gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 6 Chwefror 2024. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn cael copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i’w gyhoeddi’n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i’r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i’r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau’r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a’u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

[1] Mae INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol gyda statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig..

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

12 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon 2022–23 y Bwrdd Iechyd[2] wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn cywir a theg ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad ariannol).

13 Fodd bynnag, rwyf wedi cynnwys amod i fy marn reoleiddiol oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau refeniw. Ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2020-21 i 2022-23, gwariodd y Bwrdd Iechyd £26.467 miliwn dros y terfyn refeniw tair blynedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi. Nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwario'n fwy na'i derfyn adnoddau cyfalaf awdurdodedig ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2020-21 i 2022-23.

14 Ni ddeuthum o hyd i unrhyw faterion rheoleidd-dra eraill perthnasol o natur andwyol. Fodd bynnag, adroddais nad oedd y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei ddyletswydd ariannol i gael cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2022-23 i 2024-25. Mae'r ddyletswydd ariannol hon yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd treigl, ac wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

15 Adroddais am naw argymhelliad archwilio i'w gwella i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd rheolwyr yr holl argymhellion yn llawn ac maent wedi rhoi camau ar waith i'w gweithredu. Byddaf yn adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd gyda'r camau gweithredu fel rhan o fy archwiliad 2023-24.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

16 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- mae angen gweithredu ar frys ac yn gynaliadwy i ymdrin â'r amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau orthopedig. Mae ymrwymiad clir i wella amseroedd aros, fodd bynnag, gallai gymryd tair blynedd neu fwy i ddychwelyd y rhestr aros orthopedig i lefelau cyn y pandemig.
- o safbwynt Cymru gyfan, er gwaethaf gweithlu cynyddol y GIG, mae swyddi gwag yn parhau mewn meysydd allweddol, llawer o salwch a throsiant staff gan arwain at orddibyniaeth ar staff asiantaethau. Yn fwy cadarnhaol, mae GIG Cymru yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.

[2] Rwy'n archwilio ac yn ardystio Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae 'cyfrifon' yn derm generig.

- mae’r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i ymdrin â’i heriau gweithlu sylweddol. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau cynllunio’r gweithlu i gefnogi’r gwaith o gyflawni cynllun pobl y Bwrdd Iechyd a deall yn well effaith y camau y mae’n eu cymryd.
- mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau effeithiol i sicrhau llywodraethu da ac wedi mabwysiadu strategaeth hirdymor wedi’i hadnewyddu. Mae cyfleoedd yn eu lle i wella rhai trefniadau i gefnogi cyflawni amcanion strategol wedi’u hadnewyddu’r sefydliad ac ymdrin â’r heriau sy’n wynebu’r Bwrdd Iechyd.

17 Mae’r canfyddiadau hyn yn cael mwy o sylw yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

18 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos y stiwardiaeth o arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a'i golledion, a llifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

19 Gwnaeth fy Nghynllun Archwilio 2023 nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwiliad y cyfrifon 2022-23 a manylir ar y rhain ynghyd â sut yr ymdrinnir â nhw yn **Arddangosyn 4: Atodiad 3.**

20 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau sydd ar gael ar Wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2022-23

21 Gwnes ddod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn sylweddol gywir (cywir a theg) a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Ni wnaeth fy ngwaith yn nodi unrhyw wendidau sylweddol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i fy archwiliad ariannol).

22 Adroddais am naw argymhelliad archwilio, i'r rheolwyr ac i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd y rheolwyr yr holl argymhellion gan gytuno'n ffurfiol ar gamau rheoli a dyddiadau gweithredu.

23 Mae'n ofynnol i mi adrodd am faterion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (Aelodau'r Bwrdd), i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy nhîm archwilio'r materion hyn i'r Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau pwysig heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Adroddais am y pum maes mwyaf arwyddocaol o gamddatganiadau wedi'u cywiro. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â dosbarthiadau cyfrifeg a datgeliadau. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion pwysig eraill | Adroddais am naw argymhelliad o ran gwella, gydag ymatebion ffurfiol y rheolwyr (gan gynnwys derbyn y naw argymhelliad). Ystyriodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd nhw ar 7 Tachwedd 2023. |

24 Cynhaliais adolygiad hefyd o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Penderfynais fod yr wybodaeth cydgrynhoi y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2023 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

25 Mae fy archwiliad ar wahân o adroddiad a chyfrifon blynyddol Elusennol y Bwrdd Iechyd wedi'i gwblhau i bob pwrpas, a byddaf yn adrodd fy nghanfyddiadau i Aelodau'r Bwrdd sy'n Ymddiriedolwyr ar 24 Ionawr 2024. Rwy'n disgwyl cadarnhau'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar 26 Ionawr. Dyddiad cau'r Comisiwn Elusennau yw 31 Ionawr.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

26 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael y pwerau i dderbyn incwm ac i wario arian. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi er mwyn sicrhau nad oes elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

27 Pan nad yw Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei refeniw a/neu wariant cyfalaf yn fwy na'i bwerau i wario, ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn reoleidd-dra.

28 Cymhwysais fy marn reoleidd-dra, oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau refeniw. Ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2020-21 i 2022-23, gwariodd y Bwrdd Iechyd £26.467 miliwn dros y terfyn refeniw tair blynedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi.

29 Nid wnaeth y Bwrdd Iechyd wario'n fwy na'i derfyn adnoddau cyfalaf awdurdodedig ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2020-21 i 2022-23. Ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2020-21 i 2022-23, gwariodd y Bwrdd Iechyd £233,000 yn is na'r terfyn cyfalaf tair blynedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi.

30 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â fy marn, lle rwyf eisiau amlygu mater(ion). Oherwydd y mater rheoleidd-dra a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi manylion ffeithiol fy amod o fy marn reoleidd-dra.

31 Amlygodd fy adroddiad o sylwedd hefyd nad oedd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol o gael cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2022-23 i 2024-25. Mae'r ddyletswydd ariannol hon yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd ac i gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd yn sylfaen hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o safon.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau'n effeithiol, effeithlon ac yn ddarbodus

32 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf i fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- gwneud sylwadau ar sut mae GIG Cymru yn ymdrin â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau orthopedig;
- cyhoeddi Adroddiad Briffio Data Gweithlu'r GIG sy'n dod ag amrywiaeth o fetrigau a thueddiadau at ei gilydd i helpu i ddangos yr heriau y mae angen ymdrin â nhw'n lleol ac yn genedlaethol;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio'r gweithlu y Bwrdd Iechyd;
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, effeithiol ac yn ddarbodus; a
- asesu, fel rhan o fy ngwaith asesu strwythuredig, i ba raddau y gweithredodd y Bwrdd Iechyd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

33 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Gwasanaethau Orthopaedig yng Nghymru

34 Ym mis Mawrth 2023, sylwais ar wasanaethau orthopedig ledled Cymru. Mae fy adroddiad cenedlaethol Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r afael ag ôl-groniad y Rhestr Aros yn nodi hyd a lled yr arosiadau orthopedig, newidiadau yn y galw, agweddau ar allu gwasanaethau a rhywfaint o'r gwaith a gydlynir yn genedlaethol i foderneiddio gwasanaethau. Roedd fy adroddiad hefyd yn nodi camau allweddol y mae angen i GIG Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau mewn gwasanaethau orthopedig.

35 Gwnaeth fy ngwaith ddarganfod fod sicrhau triniaeth amserol i bobl â phroblemau orthopedig wedi bod yn her i'r GIG yng Nghymru ers blynyddoedd lawer, gyda

phandemig COVID-19 yn gwaethygu hyn yn sylweddol. Mae arian blaenorol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at welliannau tymor byr, ond nid yw wedi cyflawni'r newidiadau cynaliadwy angenrheidiol i wasanaethau, gyda thargedau rhestrau aros orthopedig heb eu cyrraedd ers iddynt gael eu sefydlu gyntaf yn 2009.

36 Ers i effaith y pandemig leihau, mae gwasanaethau orthopedig wedi bod yn araf yn ailddechrau, ac er y bydd cyfundrefnau rheoli heintiau angenrheidiol yn parhau i gael effaith ar drwybwn, mae lle i'r gallu presennol gael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon. Mae fy ngwaith modelu senario yn dangos y gallai gymryd rhwng tair a phum mlynedd i ddychwelyd arosiadau orthopedig i'r lefelau cyn y pandemig ledled Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar ymgyrch sylweddol ar atal yn y gymuned a chynnydd mewn gallu a gweithgaredd. Heb hyn, mae'n bosibl na fydd gwasanaethau byth yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

37 Canfu fy ngwaith fod ymrwymiad clir i wella gwasanaethau orthopedig. Comisiynodd GIG Cymru adolygiadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cenedlaethol a lleol, sy'n nodi cyfres o argymhellion. Cafodd strategaeth glinigol genedlaethol ar gyfer orthopaedeg ei chomisiynu hefyd sy'n nodi dewisiadau gwasanaeth a llais clinigol clir ar yr hyn sydd angen ei wneud. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ar frys i sicrhau gwelliannau tymor byr mewn amseroedd aros i leihau pa mor hir y mae pobl yn aros mewn poen ac anghysur, yn ogystal â chreu gwelliannau mwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

38 Yn ychwanegol at fy adroddiad cenedlaethol, nododd fy nhîm sut mae gwasanaethau orthopedig y Bwrdd Iechyd yn cymharu â byrddau iechyd eraill ledled Cymru. Amlygodd fy adroddiad cymharol fod y Bwrdd Iechyd wedi:

- llai o bobl ar ei restr aros y pen o'r boblogaeth, gyda'r gyfran isaf yng Nghymru o gleifion ar y rhestr aros am fwy na dwy flynedd. Fodd bynnag, mae cyfran y cleifion sy'n aros mwy na blwyddyn am apwyntiad cyntaf fel claf allanol yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.
- lefelau cyfartalog y galw 'coll' cudd posibl fel effaith cleifion yn peidio mynd at eu meddyg teulu yn ystod y pandemig.
- y lefel uchaf o welyau orthopedig a gallu'r gweithlu meddygol.
- arosiadau is na'r cyfartaledd am wasanaethau radioleg, a'r arosiadau byrraf am ffisiotherapi yng Nghymru.
- y nifer uchaf sy'n manteisio ar lwybrau 'sylw yn ôl symptomau' i leihau'r galw diangen o ran apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion allanol, ond nifer cyfyngedig yn manteisio ar apwyntiadau dilynol ar gais cleifion.

39 Mae fy ngwaith modelu senario yn dangos, yn optimistaidd, y gallai'r rhestr aros orthopedig ar gyfer y Bwrdd Iechyd ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig erbyn dechrau 2025, ac yn realistig erbyn 2026, ond heb ymdrech ar y cyd gall gymryd blynyddoedd lawer i ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig, os o gwbl.

40 Mae fy adroddiad lleol yn nodi cyfres o awgrymiadau a chwestiynau i aelodau'r Bwrdd lywio dadl a chael sicrwydd bod camau gwella ar lefel leol yn cael yr effaith a ddymunir.

## Adroddiad briffio ar ddata ynghylch gweithlu'r GIG

41 Ym mis Medi 2023, cyhoeddais adroddiad briffio sy'n nodi data allweddol ynghylch y gweithlu ar gyfer GIG Cymru. Amlygodd fy sesiwn friffio dwf parhaus GIG Cymru, a adlewyrchodd, mewn rhai achosion, nad yw'r twf yn lefelau staff, yn enwedig mewn nyrsio a rhai arbenigeddau meddygol, wedi ateb y galw cynyddol.

42 Mae'n amlwg bod y pandemig wedi effeithio ar staff ac mae'r gweithlu o dan bwysau sylweddol o hyd. Mae'r tueddiadau allweddol diweddar yn dangos mwy o drosiant staff, absenoldeb salwch a swyddi gwag. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar staff asiantaethau allanol ac yn nodedig costau asiantaeth uwch i £325 miliwn yn 2022-23. Mae Cymru'n tyfu ei gweithlu ei hun, gyda mwy o nyrsys a meddygon yn hyfforddi.

43 Er gwaethaf hyn, mae dal dibyniaeth fawr ar staff meddygol o'r tu allan i Gymru, gan ddangos bod angen i sicrhau bod comisiynu addysg yn gydnaws â'r galw, ond hefyd bod cyrff iechyd yn gallu recriwtio digon o raddedigion, unwaith eu bod wedi cwblhau eu hyfforddiant. Mae fy adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rai tueddiadau cadarnhaol sy'n dangos bod y GIG yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.

## Trefniadau cynllunio'r gweithlu

44 Archwiliodd fy adolygiad a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i gefnogi cynllunio'r gweithlu. Roedd yn canolbwyntio ar gynllunio strategol a gweithredol y gweithlu, sut mae'n defnyddio gwybodaeth am y gweithlu a sut mae'n gweithio gyda'i randdeiliaid i ddatblygu datrysiadau. Roedd y gwaith hefyd yn ystyried capasiti a gallu'r sefydliad i nodi a mynd i'r afael â heriau allweddol y gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hir, a sut mae'n monitro a yw ei ddull gweithredu'n gwahaniaeth.

45 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'i heriau gweithlu sylweddol. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau cynllunio'r gweithlu i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Pobl y Bwrdd Iechyd a deall yn well effaith y camau y mae'n eu cymryd.

46 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r nifer o staff yn ei weithlu yn raddol dros y degawd diwethaf, mae'n dal i wynebu heriau difrifol i'r gweithlu o ran recriwtio a chadw, sy'n bygwth sefydlogrwydd gwasanaethau. O ganlyniad, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y staff asiantaeth sy'n cael eu defnyddio, a wnaeth gostio dros £28 miliwn i'r Bwrdd Iechyd yn 2022-23, gan waethygu sefyllfa ariannol sydd eisoes o dan bwysau. Mae trosiant staff y Bwrdd Iechyd (11.5%) a chyfraddau salwch (7%) ymhlith yr uchaf yng Nghymru ac yn cynnig heriau sylweddol. Yn 2022-23, £879 miliwn oedd gwariant gweithlu'r Bwrdd Iechyd, sy'n gynnydd o 30% yn y pedair blynedd ers 2018-19. Gallai pwysau ariannol sy'n

wynebu'r Bwrdd Iechyd beri risg i gynaliadwyedd y gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hwy, er y byddai cynllunio'r gweithlu yn effeithiol yn cefnogi defnyddio adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd yn fwy effeithlon ac effeithiol.

47 Mae Cynllun Pobl y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n glir ar ymdrin â heriau'r gweithlu yn y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae angen mwy o sylw ar ymdrin â risgiau'r tymor hir. Er bod y Bwrdd Iechyd ar y camau cychwynnol o ran deall gallu ei wasanaeth presennol, mae angen iddo gryfhau sut mae'n rhagweld y galw am wasanaethau i'w alluogi i fodelu a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddod o hyd i atebion ar y cyd i heriau presennol a dyfodol y gweithlu.

48 Mae gan y Bwrdd Iechyd fwriad clir i wella gallu cynllunio'r gweithlu ond dylai sicrhau bod ganddo'r adnoddau i gefnogi cyflawni ei Gynllun Pobl. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r risgiau a allai atal cyflawni ei huchelgeisiau o ran y gweithlu, ond ychydig iawn o effaith y mae camau wedi'i chael hyd yn hyn i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn canolbwyntio'n briodol hefyd ar heriau presennol ei weithlu ar lefel weithredol trwy amrywiaeth o weithgareddau recriwtio, cadw a datblygu. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau, ac nid yw comisiynu addysg yn cefnogi gweithlu cynaliadwy eto, gan adael bylchau mewn rhai meysydd allweddol.

49 Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant sydd newydd ei sefydlu yn dechrau cael adroddiadau perfformiad amserol a chynhwysfawr o ran y gweithlu, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r canolbwyntio ar effaith camau gweithredu'r Cynllun Pobl.

## Asesiad strwythuredig

50 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19 o ran adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a wnaeth gronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roeddent hefyd yn ymdrin â chyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder yn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio.

51 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar : dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant; systemau sicrwydd corfforaethol; ymagwedd gorfforaethol tuag at gynllunio; ac agwedd gorfforaethol tuag at reoli adnoddau ariannol y Bwrdd. Er mwyn helpu i gyflawni fy nyletswyddau o dan Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, asesodd fy nhîm ddull gweithredu corfforaethol y Bwrdd Iechyd o bennu ei amcanion llesiant newydd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gwnaeth archwilwyr dalu sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion blaenorol.

52 Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn destun 'monitro uwch' gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei drefniadau cynllunio a chyllid.

## Dull corfforaethol o gynllunio

53 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Gwnes i dalu sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a goruchwylio'u datblygiad a
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

54 Canfu fy ngwaith fod trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn gadarn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i adnewyddu ei strategaeth hirdymor ac mae wedi mabwysiadu gweledigaeth hirdymor newydd ac amcanion strategol. Fodd bynnag, fel byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid yw wedi gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo ar gyfer 2023-26, oherwydd ei sefyllfa ariannol heriol, ac mae'n gweithio i Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 yn lle hynny.

55 Mae amcanion strategol newydd y Bwrdd Iechyd yn amcanion llesiant iddo hefyd, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod blaenoriaethau clir yn sail i'r amcanion llesiant, nid ydynt yn cynnwys pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy. At hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cydweddu ei amcanion â'r nodau llesiant cenedlaethol nac ag amcanion llesiant sefydliadau partner.

56 Mae strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol, megis y strategaeth hirdymor a Chynllun Blynyddol 2023-24, yn cynnwys amcanion a blaenoriaethau strategol clir a cherrig milltir CAMPUS, targedau a chanlyniadau. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd drefniadau da ar waith i alluogi'r Bwrdd i oruchwylio a chraffu ar y gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol. Fodd bynnag, mae yna gyfleoedd i wella adroddiadau er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ar ddarparu manteision a chanlyniadau arfaethedig.

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

57 Ystyriodd fy ngwaith a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Talais sylw arbennig i:

- Tryloywder cyhoeddus o fusnes y Bwrdd
- Trefniadau i gefnogi cynnal busnes y Bwrdd
- Strwythur y Bwrdd a'r pwyllgor, busnes, cyfarfodydd a llif sicrwydd
- Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
- Sgiliau Bwrdd, profiadau, cydlyniant ac ymrwymiad i wella

58 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac yn canolbwyntio'n dda ar dryloywder cyhoeddus, llywodraethu da, a gwella parhaus. Mae cyfleoedd yn parhau i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach ac i adolygu effeithiolrwydd strwythur newydd y pwyllgor.

59 Mae'r Bwrdd yn dal i fod â threfniadau da ar waith i gynnal ei fusnes yn dryloyw, ond mae dal i fod cyfleoedd i wella hygyrchedd cyhoeddus cyfarfodydd y Bwrdd a sicrhau bod y dogfennau diweddaraf sy'n gysylltiedig â llywodraethu ar ei wefan. Er bod trefniadau'n parhau i gefnogi cynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol, mae'r ôl-groniad sylweddol o bolisïau wedi dyddio yn peri risg posibl o dor gofynion rheoleiddio a statudol.

60 Mae'n ymddangos bod strwythur pwyllgor newydd y Bwrdd Iechyd yn ymsefydlu'n dda, ond mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd cyffredinol. Mae cyfle i'r Bwrdd Iechyd adolygu strwythur newydd y pwyllgor, fel rhan o adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor 2023-24, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn ôl y bwriad ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol wedi'u hadnewyddu. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i dderbyn papurau amserol, wedi'u hysgrifennu'n dda, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella eu cynnwys a'u hansawdd ymhellach.

61 Mae dal gan y Bwrdd Iechyd Fwrdd sefydlog a phrofiadol. Er bod rhai swyddi gwag ar gyfer Aelodau Annibynnol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i sicrhau bod pwyllgorau dal â chworwm wrth i'r broses recriwtio fynd rhagddi. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n gryf ar welliant parhaus. Mae hefyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i glywed gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau, ond mae yna gyfleoedd i ddefnyddio straeon cleifion yn fwy yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

62 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a
- thracio argymhellion.

63 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal systemau sicrwydd corfforaethol da, canfu y ngwaith fod cyfleoedd i wella trefniadau rheoli risg gweithredol, adrodd ar berfformiad, a goruchwylio olrhain argymhellion.

64 Mae dal gan y Bwrdd drefniadau da ar gyfer goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol ac mae wedi diweddaru ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i gydweddu risgiau ag amcanion, blaenoriaethau a ffrydiau gwaith strategol wedi'u hadnewyddu'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i wella trefniadau rheoli risg gweithredol. Mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth dda o

berfformiad sefydliadol, ond gwnaethom ganfod cyfleoedd i gryfhau'r Adroddiad Perfformiad Integredig gwell yn ogystal ag i adolygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad i sicrhau ei fod yn cefnogi cyflawni'r amcanion strategol wedi'u hadnewyddu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau newydd o ran ansawdd a gonestrwydd, ac mae'n gwella ei ddull cyffredinol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae proses glir a sefydledig o olrhain argymhellion , ond mae potensial i wella ei effaith drwy ddatblygu adroddiad sy'n dwyn ynghyd themâu, materion a dysgu cyffredin o'r adroddiadau cydymffurfio mewnol, allanol a rheoleiddiol a thrwy bennu argymhellion yn ffurfiol i bwyllgorau perthnasol ar gyfer craffu arnynt yn fanylach.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

65 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

66 Er gwaethaf prosesau clir ar gyfer cynllunio ariannol, rheoli a monitro, canfu fy ngwaith fod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 yn heriol.

67 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau a'i amcanion ariannol ar gyfer 2022-23, ac mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2023-24 yn parhau i fod yn heriol. Mae gan y Bwrdd Iechyd agwedd dda tuag at gynllunio ariannol ac mae wedi gosod targed arbedion uchelgeisiau gan ganolbwyntio'n glir ar wella ansawdd a chyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth a rheolaethau ariannol wedi cael eu cryfhau. Mae dal gan y Bwrdd drefniadau cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar berfformiad ariannol, gydag adroddiadau ariannol clir sy'n agored am heriau a risgiau ariannol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2023.

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Cyfrifon | Gorffennaf 2023 |
| Barn ar y datganiadau ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Atodiad Adroddiad Archwilio Cyfrifon | Medi 2023 |
| Atodiad Adroddiad Archwilio Cyfrifon Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2021-22) | Chwefror 2023 |
| Atodiad Adroddiad Archwilio Cyfrifon Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2022-23) | Ionawr 2024 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r afael a'r Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r afael â'r Rhestr Aros : Darlun cymharol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. | Mawrth 2023 |

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| Adroddiad briffio ar ddata ynghylch Gweithlu’r GIG | Medi 2023 |
| Adolygiad o Drefniadau Cynllunio’r Gweithlu | Tachwedd 2023 |
| Asesiad Strwythuredig 2023 | Rhagfyr 2023 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2023 | Ebrill 2023 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2023 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae’r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe’u cyflwynir i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosiad 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt neu sydd wedi'u cynllunio yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau tybiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Gofal Sylfaenol | Chwefror 2024 |
| Gofal heb ei drefnu: Llifo Cleifion o'r Ysbyty – Rhanbarth Caerdydd a'r Fro | Mawrth 2024 |
| Cynllunio i Ryddhau Cleifion o'r Ysbyty: Diweddariad ar Gynnydd | Mawrth 2024 |
| Adolygiad o Effeithlonrwydd Ariannol | Mawrth 2024 |
| Gofal heb ei drefnu: Trefniadau ar gyfer Rheoli Mynediad | Mehefin 2024 |
| Adolygiad o Adferiad Gwasanaethau Gofal wedi'u Cynllunio | Gorffennaf 2024 |
| Dilyniant o Adolygiad dilynol Codio Clinigol 2019 | Gorffennaf 2024 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Mae fy Nghynllun Archwilio 2023 yn nodi fy amcangyfrif o'r ffi o £437,662 (ac eithrio TAW, na chaiff ei chodi). Rwyf hefyd yn gosod amcangyfrif o ffioedd o £23,784 yng Nghynllun Archwilio 2023 ar gyfer fy archwiliad o ddatganiadau a chyfrifon blynyddol Elusennol y Bwrdd Iechyd. Bydd fy staff yn penderfynu ar y costau archwilio terfynol unwaith y bydd yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau'n llawn. Yna bydd fy nhîm archwilio yn rhoi gwybod i'r rheolwyr am y sefyllfa cau, a byddaf yn ei nodi fel arfer yn fy Nghynllun Archwilio 2024.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: archwilio risgiau cyfrifon**

Gwnaeth fy nghynllun Archwilio 2023 nodi'r risgiau ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Byddaf yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau sylweddol y tu hwnt i gwrs busnes arferol; ac<br>• ychwanegu gweithdrefnau ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o orwneud rheoli nad yw'r gwaith gorfodol uchod yn mynd i'r afael â nhw. | Adolygais nifer o amcangyfrifon cyfrifyddu a samplau o drafodiadau gan gynnwys cofnodion cyfnodolion.<br>Roedd canlyniadau fy mhrofion yn foddhaol. |
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, symudodd byrddau iechyd i derfyn adnoddau treigl tair blynedd ar gyfer | Rwy'n monitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-23 a'r sefyllfa gronnol o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2023. | Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei derfyn adnoddau cyfalaf tair blynedd ond ni wnaeth |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| refeniw a chyfalaf. Ar gyfer 2022-23 a’r tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2023, mae’r Bwrdd Iechyd yn rhagweld3 y bydd yn mynd y tu hwnt i’w derfyn adnoddau refeniw gan £26.9 miliwn. Gallai’r canlyniad hwn effeithio ar fy marn rheoleidd-dra, fel y mae’r Bwrdd Iechyd wedi’i wynebu ers rhai o’i flynyddoedd ariannol diwethaf. | Bydd fy adolygiad hefyd yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol heb eu cywiro yn ystod y tair blynedd hynny.<br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni’r terfynau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl amodi fy marn reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2022-23. Byddwn hefyd yn disgwyl rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau i egluro sail yr amodi a’r amgylchiadau yn ei gylch.<br>Hefyd, byddaf yn canolbwyntio fy mhrofi ar feysydd datganiadau ariannol a allai gynnwys barn er enghraifft darpariaethau. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar groniadau diwedd y flwyddyn gan ganolbwyntio ar sicrhau bod trafodiadau wedi’u hadrodd arnynt yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. | fodloni ei derfyn adnoddau tair blynedd ac felly mae fy marn reolaidd-dra yn amodol. |
| Cynhaliwyd prisiad pum flynyddol ystâd y GIG ar 1 Ebrill 2022.<br>Mae risg nad yw gwerth asedau’n cael | Byddaf yn:<br>• ystyried priodoldeb gwaith y Swyddfa Brisio fel arbenigwr rheoli; | Roedd canlyniadau fy mhrawf archwilio rhagnodedig yn foddhaol. |

[3] Yn seiliedig ar adroddiad ariannol 'mis 11' y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| eu nodi ar sail briodol ac nad yw symudiadau yng ngwerthoedd cario ymlaen asedau yn cael eu cyfrifo a’u datgelu’n briodol.<br>O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, mae risg arall bod gwerthoedd cario asedau ymlaen wedi newid yn ystod 2022-23 a bod prisiadau 1 Ebrill 2022 yn cael eu cam-ddatgan yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen o 31 Mawrth 2023. | • profi priodoldeb seiliau prisio asedau;<br>• adolygu sampl o symudiadau yng ngwerthoedd cario ymlaen i sicrhau bod symudiadau wedi cael eu cyfrifo a’u datgelu yn unol â Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru; ac<br>• ystyried a yw gwerth cario asedau ymlaen ar 1 Ebrill 2022 yn parhau i fod yn berthnasol, neu a oes angen addasiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn oherwydd effaith yr amgylchiadau economaidd presennol. | |
| Mae safon cyfrifyddu newydd, IFRS16[4] Prydlesi, wedi’i chyflwyno o 2022-23. Mae’r safon yn newid yn sylweddol sut y dylid cyfrif am y rhan fwyaf o asedau ar brydles, ac mae angen cydnabod asedau ar brydles fel asedau a rhwymedigaethau yn Natganiad y Sefyllfa Ariannol (y fantolen). | Byddaf yn:<br>• ystyried cyflawnrwydd y portffolios prydlesi wedi’u nodi gan y Bwrdd Iechyd, o ran yr angen eu cynnwys yng nghyfrifiadau IFRS16;<br>• adolygu sampl o werthoedd asedau a rhwymedigaethau wedi’u cyfrif a sicrhau bod y rhain wedi cael eu | Roedd canlyniadau fy mhrawf archwilio rhagnodedig yn foddhaol. Roedd un cywiriad archwilio i ailddosbarthu swm o £2.388 miliwn. |

[4] Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae yna hefyd ofynion datgelu ychwanegol sylweddol sy'n benodol i asedau ar brydles y mae angen eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol. | cyfrifyddu a'u datgelu yn unol â'r gofynion newydd; a<br>• Sicrhau bod yr holl ddatgeliadau wedi'u gwneud.<br>Fel rhan o fy nghynllunio ar gyfer archwilio, rwyf wedi cysylltu â swyddogion ac wedi rhoi'r prif gwestiynau archwilio a fydd yn cael eu gofyn. | |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.